OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 304

# Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

**Cyhoeddusrwydd i nodiadau'r arolygydd ynghylch cyfarfodydd rhagymchwiliad ac argymhellion yr arolygydd**

**11.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i bob cyfarfod rhagymchwiliad ddod i ben, rhaid i'r arolygydd lunio nodyn am y trafodion yn y cyfarfod hwnnw, ac anfon copi o'r nodyn hwnnw at Weinidogion Cymru.

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl anfon copi o'r nodyn at Weinidogion Cymru, rhaid i'r arolygydd ei gylchredeg.

(3) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y materion y cyfarwyddir yr arolygydd i'w hystyried o dan reoliad 7(1)(a), rhaid i'r arolygydd gylchredeg copi o'r argymhellion hynny.